



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2017 Rhif 1022 (Cy. 260)**

**2017 No. 1022 (W. 260)**

**TRETHI, CYMRU**

**TAXES, WALES**

**Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi  
(Gweinyddu) (Cymru) 2017**

**The Tax Collection and  
Management (Administration)  
(Wales) Regulations 2017**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer materion amrywiol sy'n ymwneud â gweinyddu'r trethi datganoledig.

These Regulations provide for various matters relating to the administration of the devolved taxes.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi Corff Adnoddau Naturiol Cymru fel person y caiff Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") ddirprwyo iddo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi.

Regulation 3 prescribes the Natural Resources Body for Wales as a person to whom the Welsh Revenue Authority ("WRA") may delegate any of its functions in relation to landfill disposals tax.

Mae rheoliad 4 yn pennu y bydd cyfnod cynllunio cyntaf ACC (at ddibenion ei gynllun corfforaethol) yn cychwyn ar 1 Ebrill 2018 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

Regulation 4 establishes that WRA's first planning period (for the purposes of its corporate plan) will commence on 1 April 2018 and end on 31 March 2019.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau. Mae rheoliad 5 yn darparu y cyfrifir y cyfraddau llog drwy gyfeirio at gyfradd Banc Lloegr a gyhoeddwyd ddiwethaf yng nghyfarfod diweddaraf Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr. Ond pan fo'r cyfarfod hwnnw wedi ei gynnal o fewn 3 diwrnod gwaith i'r dyddiad y caiff y llog ei gyfrifo, cyfrifir y cyfraddau llog fel pe na bai'r cyfarfod diwethaf hwnnw wedi ei gynnal.

Part 3 of these Regulations provides for the rates of late payment interest and repayment interest. Regulation 5 provides that the rates of interest are calculated by reference to the Bank of England rate as last announced at the latest meeting of the Bank of England Monetary Policy Committee. But where that meeting has taken place within 3 working days of the date on which interest is to be calculated, the rates of interest are calculated as if that latest meeting did not take place.

Mae Rhan 4 yn nodi'r gweithdrefnau sy'n gymwys ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau o ran a yw gwybodaeth neu ddogfen y mae ACC yn gofyn amdani o dan y pwerau a roddir gan Ran 4 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf CRhT"), wedi ei diogelu gan fraint broffesiynol gyfreithiol.

Part 4 sets out the procedures which apply for the determination of disputes as to whether information or a document requested by WRA under the powers conferred by Part 4 of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 ("the TCM Act") is protected by legal professional privilege.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn glir fod rhaid darparu unrhyw wybodaeth neu ddogfen nad yw mewn anghydfod, y mae ACC yn gofyn amdani, i ACC yn unol â'r hysbysiad a ddyroddwyd.

Mae rheoliad 10 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer anghydfodau sy'n ymwneud ag unrhyw wybodaeth neu ddogfen y mae ACC yn gofyn amdani yn ystod gohebiaeth. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r person sy'n cael yr hysbysiad ("derbynydd yr hysbysiad") lunio rhestr o unrhyw ddogfennau y mae'n eu hystyried yn freintiedig. Mae rheoliad 10(2)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynydd yr hysbysiad gyflwyno'r rhestr honno i ACC erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

Mae rheoliad 11 yn darparu ar gyfer y weithdrefn pan fo ACC yn gofyn am ddogfen yn ystod archwiliad o fangre. Yn yr achosion hyn, rhaid i dderbynydd yr hysbysiad osod unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch mewn cynhwysydd priodol y mae rhaid ei roi i ACC. Mae rheoliad 11(4) yn ei gwneud yn ofynnol i ACC wneud cais i'r tribiwnlys ystyried a datrys yr anghydfod o fewn 42 diwrnod gwaith.

Mae rheoliad 12 yn darparu bod derbynydd yr hysbysiad i gael ei drin fel ei fod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch sy'n aros am benderfyniad gan y tribiwnlys neu hyd nes y bydd derbynydd yr hysbysiad ac ACC yn dod i gytundeb.

Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r tribiwnlys ddatrys yr anghydfod a chyfarwyddo datgeliad unrhyw ddogfen (neu unrhyw ran o ddogfen) y mae'n dod i'r casgliad ei bod yn anfreintiedig.

Mae rheoliad 14 yn darparu y caiff derbynydd yr hysbysiad ac ACC gytuno i ddatrys yr anghydfod ar unrhyw adeg cyn i'r tribiwnlys ddod i benderfyniad.

Yn unol â rheoliad 1(2), daw Rhannau 1 a 2 i rym ar 21 Tachwedd 2017, a daw gweddill y darpariaethau i rym ar 1 Ebrill 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 9 makes clear that any information or document requested by WRA which is not in dispute must be provided to WRA in accordance with the notice which has been issued.

Regulation 10 establishes the procedure for disputes relating to any information or document requested by WRA in the course of correspondence. In these cases, the person in receipt of the notice ("the notice recipient") must compile a list of any documents which they consider are privileged. Regulation 10(2)(b) requires the notice recipient to serve that list on WRA by the date specified in the notice.

Regulation 11 provides for the procedure where a document is requested by WRA during the course of an inspection of premises. In these cases, the notice recipient must place any document in dispute in an appropriate container, which must be given to WRA. Regulation 11(4) requires WRA to make an application to the tribunal to consider and resolve the dispute within 42 working days.

Regulation 12 provides that a notice recipient is to be treated as having complied with the information notice in relation to any document in dispute pending the decision by the tribunal or until an agreement has been reached between the notice recipient and WRA.

Regulation 13 requires the tribunal to resolve the dispute and direct the disclosure of any document (or any part of a document) which it concludes is not privileged.

Regulation 14 provides that the notice recipient and WRA may agree to resolve the dispute at any point prior to the tribunal reaching its decision.

In accordance with regulation 1(2), Parts 1 and 2 will come into force on 21 November 2017, while the remaining provisions will come into force on 1 April 2018.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2017 Rhif 1022 (Cy. 260)**

**2017 No. 1022 (W. 260)**

**TRETHI, CYMRU**

**TAXES, WALES**

**Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi  
(Gweinyddu) (Cymru) 2017**

**The Tax Collection and  
Management (Administration)  
(Wales) Regulations 2017**

*Gwnaed* 23 Hydref 2017

*Made* 23 October 2017

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 26 Hydref 2017

*Laid before the National Assembly for Wales*  
26 October 2017

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), 27(7)(a), 101(3) a (4), 163(1) a (2), a 189(1)(b) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 14(1), 27(7)(a), 101(3) and (4), 163(1) and (2), and 189(1)(b) of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016(1).

**RHAN 1**

**PART 1**

**Cyffredinol**

**General**

**Enwi a chychwyn**

**Title and commencement**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017.

1.—(1) The title of these Regulations is the Tax Collection and Management (Administration) (Wales) Regulations 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018 ac eithrio rheoliadau yn Rhannau 1 a 2 sy'n dod i rym ar 21 Tachwedd 2017.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2018 except for regulations contained in Parts 1 and 2 which come into force on 21 November 2017.

**Dehongli**

**Interpretation**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

2. In these Regulations—

ystyr “y Ddeddf CRhT” (“*the TCM Act*”) yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016;

“the TCM Act” (“*y Ddeddf CRhT*”) means the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016;

ystyr “derbynnydd yr hysbysiad” (“*notice recipient*”) yw’r trethdalwr y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 86 o’r Ddeddf CRhT neu drydydd parti y rhoddir hysbysiad iddo o dan adran 87 neu 89 o’r Ddeddf CRhT, neu berson a awdurdodir i weithredu ar ei ran;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw unrhyw ddiwrnod heblaw diwrnod nad yw’n ddiwrnod busnes o fewn yr ystyr a roddir i “non-business days” yn adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882(1);

ystyr “dogfen” (“*document*”) yw gwybodaeth, dogfen neu ran o ddogfen; ac

ystyr “dogfen y mae anghydfod yn ei chylch” (“*document in dispute*”) yw dogfen y mae anghydfod yn ei chylch rhwng ACC a pherson sydd wedi cael hysbysiad gwybodaeth, o ran a yw’r ddogfen yn ddarostyngedig i faint broffesiynol gyfreithiol.

## RHAN 2

### ACC

#### Dirprwyo swyddogaethau

3. Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi ei ragnodi fel person y caiff ACC ddirprwyo iddo unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi o dan adran 14(1) o’r Ddeddf CRhT.

#### Pennu’r cyfnod cynllunio

4. Mae’r cyfnod sy’n dechrau ag 1 Ebrill 2018 ac sy’n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 wedi ei ragnodi fel y cyfnod cynllunio cyntaf at ddibenion adran 27(7)(a) o’r Ddeddf CRhT.

## RHAN 3

### Cyfraddau llog

#### Ystyr “cyfradd Banc Lloegr”

5.—(1) Yn y Rhan hon, “cyfradd Banc Lloegr” sy’n gymwys ar gyfer diwrnod yw’r gyfradd banc swyddogol a gyhoeddwyd ddiwethaf yng nghyfarfod Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr a gynhaliwyd cyn y diwrnod hwnnw.

“document” (“*dogfen*”) means information, a document or part of a document;

“document in dispute” (“*dogfen y mae anghydfod yn ei chylch*”) is a document over which there is a dispute between WRA and a person who has been given an information notice as to whether the document is subject to legal professional privilege;

“notice recipient” (“*derbynnydd yr hysbysiad*”) means the taxpayer who is given a notice under section 86 of the TCM Act or third party who is given a notice under section 87 or 89 of the TCM Act, or a person authorised to act on their behalf; and

“working day” (“*diwrnod gwaith*”) means any day other than a non-business day within the meaning of section 92 of the Bills of Exchange Act 1882(1).

## PART 2

### WRA

#### Delegation of functions

3. The Natural Resources Body for Wales is prescribed as a person to whom WRA may delegate any of its functions in relation to landfill disposals tax under section 14(1) of the TCM Act.

#### Specification of planning period

4. The period beginning with 1 April 2018 and ending on 31 March 2019 is prescribed as the first planning period for the purposes of section 27(7)(a) of the TCM Act.

## PART 3

### Rates of interest

#### Meaning of “Bank of England rate”

5.—(1) In this Part, the “Bank of England rate” that applies to a day is the official bank rate as last announced at the meeting of the Bank of England Monetary Policy Committee held prior to that day.

---

(1) 1882 p. 61.

---

(1) 1882 c. 61.

(2) Ond pan fo diwrnod yn dod o fewn 3 diwrnod gwaith i gyfarfod y gwnaed y cyhoeddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ynddo, ystyr “cyfradd Banc Lloegr” ar gyfer y diwrnod hwnnw yw’r gyfradd a bennir o dan y paragraff hwnnw fel pe na bai’r cyfarfod hwnnw wedi ei gynnal.

### **Cyfradd llog taliadau hwyr**

6. Y gyfradd llog taliadau hwyr at ddibenion adran 157 o’r Ddeddf CRhT yw’r ganran y flwyddyn a ganfyddir drwy ddefnyddio’r fformiwla a ganlyn—

cyfradd Banc Lloegr + 2.5

### **Cyfradd llog ad-daliadau**

7. Y gyfradd llog ad-daliadau at ddibenion adran 161 o’r Ddeddf CRhT yw pa un bynnag o’r canlynol sydd uchaf—

- (a) 0.5% y flwyddyn; a
- (b) cyfradd Banc Lloegr.

## **RHAN 4**

Datrys anghydfodau o ran a yw dogfen yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol

### **Cymhwyso’r Rhan hon**

8. Mae’r Rhan hon yn gymwys—

- (a) pan fo ACC wedi dyroddi hysbysiad gwybodaeth i berson ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen—
  - (i) yn ystod gohebiaeth; neu
  - (ii) yn ystod archwiliad o dan Ran 4 o’r Ddeddf CRhT, a
- (b) pan fo anghydfod rhwng ACC a derbynnydd yr hysbysiad o ran a yw dogfen y gofynnwyd amdani yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol.

### **Gofyniad i ddarparu gwybodaeth a chyflwyno dogfennau nad oes anghydfod yn eu cylch**

9. Nid oes dim yn y Rhan hon yn effeithio ar—

- (a) unrhyw ofyniad o dan hysbysiad gwybodaeth i ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfen nad oes anghydfod yn ei chylch; na
- (b) y pwerau o dan Ran 4 o’r Ddeddf CRhT i archwilio mangroedd ac eiddo arall.

(2) But where a day falls within 3 working days of a meeting at which an announcement referred to in paragraph (1) was made, the “Bank of England rate” for that day means the rate as determined under that paragraph as if that meeting had not taken place.

### **Late payment interest rate**

6. The late payment interest rate for the purposes of section 157 of the TCM Act is the percentage per annum found by applying the following formula—

Bank of England rate + 2.5

### **Repayment interest rate**

7. The repayment interest rate for the purposes of section 161 of the TCM Act is the higher of—

- (a) 0.5% per annum; and
- (b) the Bank of England rate.

## **PART 4**

Resolution of disputes as to whether a document is subject to legal professional privilege

### **Application of this Part**

8. This Part applies where—

- (a) WRA has issued an information notice to a person to provide information or produce a document—
  - (i) during the course of correspondence; or
  - (ii) during the course of an inspection under Part 4 of the TCM Act, and
- (b) there is a dispute between WRA and the notice recipient as to whether a document which has been requested is subject to legal professional privilege.

### **Requirement to provide information and produce documents not in dispute**

9. Nothing in this Part affects—

- (a) any requirement under an information notice to provide information or produce a document which is not in dispute; or
- (b) the powers under Part 4 of the TCM Act to inspect premises and other property.

### **Gweithdrefn pa fo anghydfod ynghylch hysbysiad gwybodaeth a roddir mewn gohebiaeth**

10.—(1) Mae'r weithdrefn a ganlyn yn gymwys pan fo anghydfod yn dod o fewn rheoliad 8(a)(i).

(2) Ar ôl cael hysbysiad gwybodaeth, rhaid i dderbynydd yr hysbysiad—

- (a) pennu mewn rhestr bob dogfen sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwybodaeth y mae anghydfod yn ei chylch, ynghyd â disgrifiad o natur a chynnwys y ddogfen honno; a
- (b) cyflwyno'r rhestr honno i ACC erbyn y dyddiad a roddir yn yr hysbysiad gwybodaeth ar gyfer cyflwyno'r ddogfen.

(3) Ond nid yw disgrifiad o'r ddogfen yn ofynnol pan fyddai disgrifiad o'r fath yn arwain at anghydfod dros fraint.

(4) O fewn 20 diwrnod gwaith i gael y rhestr y cyfeirir ati ym mharagraff (2), rhaid i ACC hysbysu derbynydd yr hysbysiad am unrhyw ddogfen ar y rhestr y mae'n ei gwneud yn ofynnol ei chyflwyno ac y mae'n ystyried ei bod yn anfreintiedig.

(5) Ar ôl cael yr hysbysiad o dan baragraff (4), rhaid i dderbynydd yr hysbysiad—

- (a) cyflwyno unrhyw ddogfen y mae'n cytuno ei bod yn anfreintiedig; a
- (b) i'r graddau bod anghydfod yn parhau ynghylch statws unrhyw ddogfen, gwneud cais i'r tribiwnlys.

(6) Rhaid i gais o dan baragraff (5)(b)—

- (a) mynd gyda chopi o'r dogfennau y mae anghydfod yn parhau yn eu cylch; a
- (b) cael ei wneud o fewn cyfnod rhesymol y mae derbynydd yr hysbysiad ac ACC i gytuno arno, ond mewn unrhyw achos, yn ddim hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad a roddir gan ACC o dan baragraff (4).

### **Gweithdrefn pan fo anghydfod ynghylch hysbysiad gwybodaeth a roddir yn ystod archwiliad eiddo**

11.—(1) Mae'r weithdrefn a ganlyn yn gymwys pan fo anghydfod yn dod o fewn rheoliad 8(a)(ii).

(2) Ar ôl cael yr hysbysiad gwybodaeth, rhaid i dderbynydd yr hysbysiad—

- (a) dangos i ACC bob dogfen sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwybodaeth y mae anghydfod yn ei chylch; a
- (b) rhoi unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch mewn cynhwysydd priodol sy'n rhwystro'r cynnwys rhag bod yn weladwy.

### **Procedure where information notice given in correspondence is in dispute**

10.—(1) The following procedure applies where there is a dispute falling within regulation 8(a)(i).

(2) On receipt of the information notice, the notice recipient must—

- (a) specify in a list each document required under the information notice which is in dispute, with a description of the nature and contents of that document; and
- (b) serve that list on WRA by the date given in the information notice for producing the document.

(3) But no description of a document is required where such a description would itself give rise to a dispute over privilege.

(4) Within 20 working days of receiving the list referred to in paragraph (2), WRA must notify the notice recipient of any document on the list that it requires to be produced and which it considers is not privileged.

(5) On receipt of notification under paragraph (4), the notice recipient must—

- (a) produce any document which he or she agrees is not privileged; and
- (b) to the extent that the status of any document remains in dispute, make an application to the tribunal.

(6) An application under paragraph (5)(b) must be—

- (a) accompanied by a copy of the documents which remain in dispute; and
- (b) made within a reasonable time to be agreed between the notice recipient and WRA, but in any event no later than 20 working days after the date of the notification given by WRA under paragraph (4).

### **Procedure where information notice given during inspection of premises is in dispute**

11.—(1) The following procedure applies where there is a dispute falling within regulation 8(a)(ii).

(2) On receipt of the information notice, the notice recipient must—

- (a) indicate to WRA each document required under the information notice which is in dispute; and
- (b) place any document in dispute in an appropriate container which prevents the contents being visible.



(3) Rhaid i'r cynhwysydd—

- (a) cael ei selio, ei labelu a'i lofnodi gan dderbynydd yr hysbysiad;
- (b) cael ei gydfodnodi gan ACC; ac
- (c) cael ei gadw gan ACC.

(4) O fewn 42 diwrnod gwaith i gael y cynhwysydd, rhaid i ACC—

- (a) danfon y cynhwysydd i'r tribiwnlys gyda'r sêl yn gyflawn ynghyd â chais i'r tribiwnlys; a
- (b) anfon copi o'r cais hwnnw at dderbynydd yr hysbysiad.

### **Cydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth**

12. Pan fo derbynydd yr hysbysiad yn cydymffurfio â'r weithdrefn a nodir yn y Rhan hon, mae'r person hwnnw i gael ei drin fel ei fod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch hyd nes bod y tribiwnlys yn dyfarnu ar statws y ddogfen neu hyd nes y deuir i gytundeb o dan reoliad 14.

### **Canfyddiad y tribiwnlys**

13.—(1) Pan wneir cais o dan reoliad 10(5)(b) neu 11(4), rhaid i'r tribiwnlys—

- (a) datrys yr anghydfod drwy gadarnhau a yw'r ddogfen yn freintiedig ai peidio, ac i ba raddau; a
- (b) cyfarwyddo pa ran neu rannau o ddogfen (os oes rhai) y mae rhaid eu datgelu.

(2) Rhaid i'r tribiwnlys sicrhau nad yw unrhyw ddogfen y mae anghydfod yn ei chylch yn cael ei datgelu'n amhriodol i unrhyw berson wrth aros am ddyfarniad y tribiwnlys.

### **Datrys anghydfodau drwy gytundeb**

14. Caniateir i anghydfod sy'n dod o fewn y Rhan hon gael ei ddatrys ar unrhyw adeg drwy gytundeb rhwng ACC a derbynydd yr hysbysiad, naill ai yn ysgrifenedig neu fel arall.

(3) The container must be—

- (a) sealed, labelled and signed by the notice recipient;
- (b) countersigned by WRA; and
- (c) retained by WRA.

(4) Within 42 working days of receiving the container, WRA must—

- (a) deliver the container to the tribunal with the seal intact together with an application to the tribunal; and
- (b) send a copy of that application to the notice recipient.

### **Compliance with information notice**

12. Where a notice recipient complies with the procedure set out in this Part, that person is to be treated as having complied with the information notice in relation to any document in dispute until the tribunal determines the status of the document or until an agreement has been reached under regulation 14.

### **Finding of the tribunal**

13.—(1) When an application is made under regulation 10(5)(b) or 11(4), the tribunal must—

- (a) resolve the dispute by confirming whether and to what extent the document is or is not privileged; and
- (b) direct which part or parts of a document (if any) must be disclosed.

(2) The tribunal must ensure that any document in dispute is not inappropriately disclosed to any person pending the tribunal's determination.

### **Resolution of disputes by agreement**

14. A dispute falling within this Part may be resolved at any time by WRA and the notice recipient reaching an agreement, whether in writing or otherwise.

*Mark Drakeford*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth  
Leol, un o Weinidogion Cymru  
23 Hydref 2017

Cabinet Secretary for Finance and Local Government,  
one of the Welsh Ministers  
23 October 2017

©Hawlfraint y Goron 2017

© Crown copyright 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2017 Rhif 1022 (Cy. 260)**

**2017 No. 1022 (W. 260)**

**TRETHI, CYMRU**

**TAXES, WALES**

Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi  
(Gweinyddu) (Cymru) 2017

The Tax Collection and  
Management (Administration)  
(Wales) Regulations 2017

£6.00

W201710241017 11/2017

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/1022>

ISBN 978-0-348-20161-1



9 780348 201611